**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 21 o FAI 2024, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Berwyn Parry Jones, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Hefin Jones.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Philip Roberts, Richard Robinson

**Clerc:** Meirion Jones

**1307. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1308 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1309. Datgan buddiant personol.**

**1322 (d)**

Y Cynghorydd Rhys Parry wedi datgan buddiant rhagfarnllyd ar gyfer cais cynllunio yma, ar y sail ble byddai aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol yn dod i gasgliad rhesymol fod y buddiant personol mor arwyddocaol fel y gallai rhagfarnu'r penderfyniad

Ni wnaeth chymerodd rhan yn y drafodaeth nac yn y penderfyniad

**1310. I dderbyn cofnodion cyfarfod 16 o Ebrill 2024**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1311. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1312. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, cadeirydd y pwyllgor, nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers 4ydd o Ebrill, dim ond fod yr adroddiad yr archwiliwr mewnol wedi ei dderbyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1313. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

Cyngor

Toriadau - mae nifer o gyfarfodydd wedi bod am yr heriau cyllidol a sut rydan ni'n mynd i'w cyfarch nhw yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mi fydd rhaid edrych yn ofalus ar ein darpariaeth a does dim amheuaeth y bydd penderfyniadau anodd i'w gwneud. Mae gennym lywodraeth yn Llundain ar y funud sydd wedi deud nad oes ganddynt fwriad o ariannu llywodraeth leol - gobeithio y bydd hynny'n newid os daw newid llywodraeth yn yr hydref.

Cyngor llawn:

Etholwyd Beca Roberts yn Gadeirydd a Ioan Thomas yn is-gadeirydd.

Dyma'r cynigion a basiwyd -
Cynnig am warchod gwasanaeth rheilffordd y Cambrian.
Cynnig i bwyso ar Lywodraeth Cymry ynglŷn â deddf eiddo.
Cynnig yn pwyso am ymchwiliad i'r penderfyniad i gau canolfannau ambiwlans awyr Dinas Dinlle a'r Trallwng.

Bu Beca i Gaerdydd i gyfarfod y Gweinidog addysg newydd, Lynne Neagle, a chafwyd trafodaeth ar yr heriau demograffig sydd yma yng Ngwynedd wrth i'r boblogaeth ddisgyn a'r niferoedd o blant fynd
yn llai.

Buodd y ddau ohonom mewn cyfarfod 3ydd sector yn ddiweddar, lle bu trafodaeth am wefan newydd fyddai'n gwella ymgysylltu cymunedol a rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau.

Cawsom ddiweddariad ar waith y National grid yn ddiweddar gan swyddogion y Cyngor. Y prif neges oedd fod y National Grid yn cwyno am fod y Cyngor yn mynnu fod y goleuadau traffig yn cael ei
tynnu i lawr ar adegau gwyliau. Penderfynwyd fod Cynghorwyr y fro yn mynychu cyfarfod ar y cyd hefo swyddogion Gwynedd, y National Grid a Morgan Sindall y contractwr.

Bu Hyfforddiant ar helpu pobol drwy costau byw, ac mae pecynnau gwybodaeth am wasanaethau cefnogi wedi mynd allan efo'n pecynnau bwyd.

Lleol

Cawsom gyngerdd telyn gyda Veronika Lemishenko - gwych gweld y gefnogaeth - yr Institiwt yn llawn - codwyd y swm anrhydeddus o £530 sydd yn mynd i'r Veronika Lemishenko Charity Foundation sydd yn mynd i helpu pobol yn Ukraine sydd yn dioddef o sgil effeithiau y rhyfel.

Bu Cyngerdd Lleisiau Llawen, yr olaf o'r digwyddiadau a drefnwyd drwy law grant Mantell Gwynedd yn llwyddiant hefyd gyda'r Institiwt yn llawn unwaith eto. Llawer o werthfawrogiad a chynulleidfaoedd gwahanol wedi cael budd.

Y digwyddiadau oedd:-

Annette Bryn Parri a Bedwyr Parri

Hawys Parri a Caleb Jones
Criw Ragarug
Veronika Lemishenko
Lleisiau Llawen

Y rhain i gyd efo lluniaeth gan cegin fach Emma neu arlwyo Cae Gwyn - dau gwmni lleol yn Llanrug.

**1314. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddodd y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar ond ymysg y gweithgareddau sydd yn symud ymlaen ydi

- fod y gwaith o adnewyddu'r ffens ar gae chwarae Pwll Moelyn wedi ei wneud
- fod y gwaith ar y parc sglefrio yn Cwm y Glo wedi cychwyn
- fod cwyn wedi dderbyn am glymog Siapan yn Cwm y Glo
- fod gwaith wedi gychwyn ar greu rheolau i'r caeau chwarae

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1315. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddodd Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y pwyllgor, ein bod wedi cael ymweliad safle oddiwrth swyddog cymuned Fareshare. Pwrpas yr ymweliad oedd i sicrhau fod y cynllun yn gweithredu a gofynion Fareshare ac roeddynt yn hapus fod popeth yn rhedeg yn iawn.

Adroddwyd fod y niferodd sydd yn derbyn pecynnau bwyd yn eithaf sefydlog

Nodwyd fod angen ceisio am grantiau o ffynonellau eraill ar gyfer ychwanegu at gyflenwad a dderbynnir gan Fareshare oherwydd nid oes digon o gyllideb dim ond tan ddiwedd Gorffennaf o barhau gyda darparu wyau a bara.

Adroddwyd ein bod wedi ymaelodi a Fareshare hyd ddiwedd Mawrth 2025

Fod yr ystafell sydd yn cael ei defnyddio ar gyfer cadw bwyd, wedi ei chlirio.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1316. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones (Is-gadeirydd y pwyllgor) yn absenoldeb y cadeirydd y canlynol

Yn dilyn cyfarfod is-bwyllgor Y Fynwent yn y Fynwent, nos Fawrth 7.5.24. , gwaith sydd ei angen yn y fynwent sydd wedi ei chydnabod yn ystod y cyfarfod safle:

Arwyddion newydd ynglŷn â pharcio ar y glaswellt mewn tywydd gwlyb.
Gweithredu ar fesurau ail-gylchu newydd Llywodraeth Cymru gyda'r posibilrwydd o dynnu biniau o'r fynwent yn llwyr os nad yw'r drefn yn gweithio.

Trwsio ffens wyrdd wrth ochor blociau E + F.

Cadw golwg ar y wal cerrig wrth ochor y lon sydd yn arwain at y fynwent, hyn yn dilyn adroddiad bod y gwartheg yn y cae yn rhoi pwysau ar y wal.

Cadw golwg ar gyflwr meinciau cof yn y fynwent a chysylltu gyda'r teuluoedd os bydd angen gwaith cynnal a chadw.

Monitro gwaith iechyd a diogelwch cofebion (y gwaith i'w cwblhau erbyn 21.5.24.).Diweddariad : Y Clerc wedi dilyn hyn i fyny gyda Roberts & Owen 17.5.24. Y gwaith wedi cychwyn. Mae'r tywydd wedi bod yn eu herbyn mewn dyddiau o glustnodi gwaith yn y fynwent, a hefyd mae angen boltiau arbennig i rai o'r cofebion a tydi rheini ddim wedi bod ar gael. Y Clerc wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o orffen y gwaith oherwydd ein bod yn cario allan asesiad risg o'r cofebion, mis Mehefin.

Trwy gyfryngau gwahanol, hysbysebu gwaith asesiadau risg sydd i'w digwydd yn y fynwent yn ystod mis Mehefin (hysbys ar Facebook yn barod,18.5.24.)

Gosod rhybudd ar dalcen mynediad i'r cwt yn y fynwent (wedi'i gwneud 17.5.24.).

Hefyd ,penderfynwyd trafod y drefn torri beddi yn y cyfarfod nesaf (eitem agenda).

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi derbyn 2 amcan bris am waith sylweddoli ar wal newydd i'r fynwent.

Toriad gwair yn y fynwent : 17.5.24

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1317. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Is-gadeirydd y pwyllgor) yn absenoldeb y cadeirydd y canlynol

- Asesiadau risg gweithio yn unigol ac Unigolion bygythiol / treisgar / blinderus eisoes wedi eu cwblhau ac wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Pob pwyllgor yn cael copi o hwn i'w trafod.

- Asesiadau risg “Defnyddio cerbydau ar fusnes y cyngor “ wedi ei thrafod yn y cyfarfod yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch ,8.5.24. Penderfynwyd y bydd rhaid i aelodau llenwi ffurflen yn datgan bod ganddynt yr yswiriant priodol i wneud hyn.

- Asesiadau risg i’w trafod yn y dyfodol : Codi pwysau (manual handling),Y Maes parcio, Cynllun Bwyd, Tywydd anffafriol .

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1318. I dderbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara pâr sefyllfa Tŷ’r Ysgol, Llanrug (Cyng Rhys Parry)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Rhys Parry ar y sefyllfa ddiweddara pâr sefyllfa Tŷ’r Ysgol.

Fod yr ysgol angen diweddara cynllun busnes

Wedi derbyn ymateb oddi wrth Adran Cynllunio

Byddai defnydd o’r tŷ yn cyfoethogi addysg yn yr ysgol

Yr ysgol yn teimlo eu bod yn y canol rheng Adran Eiddo ac Adran Addysg

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1319. Fod y cyngor yn ystyried gosod diffibriliwr yn ardal Pontrug ac yn ymchwilio i leoliad addas.**

Adroddwyd gan y clerc fod defnydd diweddar wedi bod am diffibriliwr o ardal Pontrug. Nid oes un y lleoliad yna ac bu rhaid i’r sawl oedd angen un deithio i Llanrug i nol un ac yna yn ôl. Er nad yw hyn yn bellter sylweddol, fodd bynnag mae eiliadau fel hyn yn gallu amharu ar iechyd y claf. Gofynnir i’r cyngor ystyried pwrcasu diffibriliwr ar gyfer ardal Pontrug. Byddai hyn wedyn yn ychwanegu ac yn sicrhau fod ardal y cyngor cymuned Llanrug wedi ddarparu gyda diffibriliwr. Er gwybodaeth dyma’r lleoliadau presennol, Maes Carafannau Tŷ’n y Coed (yn y tŷ golchi), Wal Siop Premier Llanrug, Ysgol Uwchradd Brynrefail, Y Sefydliad Coffa, Glyntwrog, Y Fricsan Cwm y Glo, London Garage Cwm y Glo a Bryn y Maen, Ceunant. Mae rhain i gyd wedi gosod yn allanol ac ar gael 24awr y dydd.

**Penderfynwyd:** Cynnal cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i benderfynu ar leoliad addas ac yna symud ymlaen i osod un yn y lleoliad hynny.

**1320. Cais oddiwrth Cyngor Tref Nefyn fel a ganlyn (eitem 1320a)**

“Mae Cyngor Tref Nefyn wedi ysgrifennu llythyr at Dyfrig Siencyn yn dilyn darllen erthygl yn y Cambrian News ynglŷn a bwriad Cyngor Gwynedd i wario £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar 67 o geir trydan.

Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth yn y mater yma drwy anfon llythyr i Dyfrig Siencyn i wrthwynebu'r bwriad.

Atodaf gopi o'r llythyr sydd wedi cael ei anfon gan Cyngor Tref Nefyn ac mae croeso i chwi ei ddefnyddio a rhoi enw eich Cyngor ar y gwaelod."

Mae ymateb oddiwrth Cyngor Gwynedd i lythyr Cyngor Tref Nefyn wedi atodi.(eitem 1320b)

**Penderfynwyd:** Peidio gwneud dim a cais Cyngor Tref Nefyn oherwydd yn y cyfamser mae ymateb wedi dod oddiwrth Cyngor Gwynedd.

**1321. Unrhyw adborth / datblygiad o'r newyddlen**

Adroddwyd fod pob eiddo oddi fewn i'r ardal wedi derbyn newyddlen am waith y cyngor. Mae darparu newyddlen yn ofyniad statudol.

Nid oed yr aelodau wedi derbyn llawer o ymateb i'r newyddlen, dim ond fod rhai wedi ymateb gan ddweud nad oeddynt yn ymwybodol o'r holl waith roedd y cyngor yn ei wneud.

**Penderfynwyd:** Yn dilyn cais yn y newyddlen am gynghorwyr ychwanegol a gwirfoddolwyr ar gyfer y cynllun bwyd, yna i'w hysbysebu eto ar 'Facebook ac ar wefan y cyngor.

**1322. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C24/0321/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad un llawr i ochr yr eiddo.
**Ymgeisydd:** Tesni Jones Evans
**Asiant:** Mr Eric Hughes
**Cyfeiriad:** Gwelfryn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AW
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C24/0343/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Dymchwel lolfa haul ac adeiladu ystafell ardd newydd ar yr un safle.
**Ymgeisydd:** Dr Delyth W Thomas
**Cyfeiriad:** Tan Y Cae, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RR
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C21/0564/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ar gyfer codi 3 uned breswyl ffforddiadwy (dau dy a byngalo)
**Ymgeisydd:** Morris (Morris Build for Life)
**Asiant:** Mark Davies (Cambrian Planning and Development Ltd)
**Cyfeiriad:** Tir Ger Glyntwrog Inn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AN
**Cyfeirnod Grid:** 254145.24, 363237.3
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Ansicrwydd am y cais – beth sydd wedi newid? Dim yn bosib rhoi barn ar hyn o bryd. Cysylltu a Cyngor Gwynedd i holi.

d) **Rhif y Cais:** C24/0285/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Codi annedd a datblygiad cysylltiedig.
**Ymgeisydd:** Dave Buckley (DB Construction Ltd)
**Asiant:** Mr Neil Foxall (NJPlanning Ltd)
**Cyfeiriad:** Cae Glas, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RT
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu ar sail fod y datblygiad yn rhy fawr ac nad ydi'r ffordd at yr adeilad yn addas**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 20:25

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 18 o Fehefin 2024